**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | S Pritchard |
| P M Black | O G James | A Pugh |
| J E Burtonshaw | L James | J A Raynor |
| S E Crouch | Y V Jardine | C Richards |
| J P Curtice | M H Jones | K M Roberts |
| N J Davies | P K Jones | B J Rowlands |
| P Downing | S M Jones | M Sherwood |
| C R Doyle | L R Jones | P B Smith |
| M Durke | J W Jones | R V Smith |
| V M Evans | E J King | A H Stevens |
| W Evans | E T Kirchner | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | M A Langstone | D G Sullivan |
| R Francis-Davies | M B Lewis | G J Tanner |
| S J Gallagher | W G Lewis | L G Thomas |
| L S Gibbard | A S Lewis | W G Thomas |
| F M Gordon | C E Lloyd | M Thomas |
| K M Griffiths | P Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| J A Hale | I E Mann | G D Walker |
| D W Helliwell | P M Matthews | L V Walton |
| T J Hennegan | P N May | T M White |
| C A Holley | H M Morris | |
| P R Hood-Williams | C L Philpott | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, A M Day, C R Evans, D H Hopkins, R D Lewis, D Phillips a/ac M Sykes

---

## 86. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffwyd cynghorwyr a swyddogion gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd

ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, S E Crouch, J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, J A Hale, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, O G James, L James, Y V Jardine, J W Jones, L R Jones, M H Jones, P K Jones, S M Jones, E J King, E T Kirchner, M A Langstone, A S Lewis, M B Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, I E Mann, P M Matthews, P N May, H M Morris, C L Philpott, S Pritchard, A Pugh, C Richards, J A Raynor, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, P M Smith, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, G J Tanner, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker a T M White gysylltiad personol â Chofnod 94 "Adroddiad Drafft Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019-2020 - Ymgynghoriad".

## 87. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018.

## 88. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 89. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Gwobr Cyfreithiwr sy'n Ymwneud â Phobl/Tîm y Flwyddyn Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (LlL)

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei fod yn falch o gyhoeddi bod Stephanie Williams a Stephen Holland o Dîm Gwasanaethau Cyfreithiol Adran Addysg yr awdurdod wedi ennill Gwobr Cyfreithiwr sy'n Ymwneud â Phobl/Tîm y Flwyddyn Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (LlL). Mae hyn i gydnabod y gwasanaeth rhagorol maent yn ei ddarparu i ysgolion.

Roedd y gwerth a roddwyd ar wasanaeth pwrpasol y tîm gan benaethiaid ledled Abertawe wedi creu cryn argraff ar y beirniaid, a'i disgrifiodd fel "estyniad hanfodol o gymuned yr ysgol", ac a ganmolodd "broffesiynoldeb llwyr ac ymagwedd gwrtais y cyfreithwyr arbenigol a oedd yn rhan ohono".

Roedd Stephanie Williams a Stephen Holland o'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn bresennol i dderbyn y wobr.

**2) Gwobrau Dathlu Rhagoriaeth Mewn Caffael Cyhoeddus Cyfleoedd y Llywodraeth (GO) Cymru 2018-2019**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei fod yn falch o gyhoeddi bod y Tîm Cyfleusterau yn y gwasanaeth Eiddo Corfforaethol ynghyd â'r Weinyddiaeth Celfi wedi cael canmoliaeth uchel yng ngwobrau GO eleni ar gyfer y Prosiect Gweithio Ystwyth. Mae'r Wobr Budd Cymdeithasol a Chymunedol ym maes Caffael GO yn tynnu sylw at y gwaith da a wnaed wrth adnewyddu'r amgylchedd swyddfa gweithio ystwyth newydd.

Mae'r wobr yn cydnabod y rôl hanfodol y gall caffael cyhoeddus ei chwarae yng Nghymru wrth ddarparu cymdeithas fwy cynaliadwy a theg. Mae'n tynnu sylw at sefydliadau sydd wedi gwreiddio gofynion buddion cymdeithasol a chymunedol yn eu gweithgareddau caffael a chadwyn gyflenwi er mwyn galluogi gwell canlyniadau i ddinasyddion Cymru.

**3) Gwobrau Gwasanaethau Blynyddol APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus)**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Gwobrau Gwasanaethau Blynyddol APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus) a gynhaliwyd ym mis Medi'n cydnabod ac yn dathlu cyflwyno gwasanaethau rheng flaen llywodraeth leol neilltuol. Derbyniwyd dros 370 o gynigion ganddynt eleni gan awdurdodau lleol o bob rhan o'r DU, a chyrhaeddodd Cyngor Abertawe'r rhestr fer mewn pum categori. Cynhaliwyd y gwobrau yng Nghaeredin, ac rwy'n falch o gyhoeddi y cyhoeddwyd mai'r Gwasanaethau Adeiladau oedd enillwyr y Wobr Menter Orau'r Gweithlu.

Cydnabuwyd Gwasanaethau Adeiladau Cyngor Abertawe ar gyfer y wobr nodedig hon oherwydd eu rhaglen hyfforddi a datblygu staff ac am eu rhaglen brentisiaeth sydd wedi derbyn bron 200 o brentisiaid ers iddi gychwyn yn 2003. Roedd yr adran wedi cydnabod ac ailgynhyrchu'r ymagwedd arfer gorau hon ar draws ei holl ddarpariaeth gwasanaeth a fydd yn sicrhau bod digon o staff a sgiliau "addas at y diben" ar gyfer y tîm yn y dyfodol.

Roedd Emma Lewis a Malcolm Jones o'r Gwasanaethau Adeiladau'n bresennol i dderbyn y wobr.

**4) Cynllun Prentisiaethau a Phrentis y Flwyddyn**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Cynllun Prentisiaethau'r awdurdod wedi bod yn gweithredu ers 2003 a bod dros 200 o brentisiaid wedi bod yn rhan ohono yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r Cynllun Prentisiaethau'n caniatáu i'r awdurdod ddatblygu cenhedlaeth newydd o seiri, plymeriaid, trydanwyr, plastrwyr a phersonél aml-grefft.

Prentis cyffredinol y Flwyddyn oedd Luke Evans a oedd newydd gwblhau ei 4edd flwyddyn.

Yr enillwyr eraill oedd:

**Gwobr Prentis Blwyddyn 1af**
Prentis Mecanyddol a Thrydanol y Flwyddyn yw Lewis Morgan;
Prentis Crefft y Flwyddyn yw Joshua Collins.

**Gwobr Prentis 2il Flwyddyn**
Prentis Mecanyddol a Thrydanol y Flwyddyn yw Connor Phillips;
Prentis Crefft y Flwyddyn yw Joshua Phelps.

**Gwobr Prentis 3edd Flwyddyn**
Prentis Mecanyddol a Thrydanol y Flwyddyn yw Llewellyn Richards;
Prentis Crefft y Flwyddyn yw Rory Grey.

## 5) Y Lluoedd Arfog - Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei fod yn falch bod ymdrechion y cyngor i gefnogi'r Lluoedd Arfog wedi'u cydnabod gyda Gwobr Aur dan Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ni yw'r unig gyngor yng Nghymru sydd wedi derbyn y wobr hon a drefnir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Aeth Spencer Martin a Stephen Jenkins i Lundain yn ddiweddar i dderbyn y wobr.

Roedd Spencer Martin a Stephen Jenkins yn bresennol i dderbyn y wobr.

## 6) Prosiect Diamond yn ennill Gwobr Diana

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Prosiect Diamond, cynllun sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe i ddysgu mwy am fywyd yn y brifysgol i'w hysbrydoli, cynyddu eu dyheadau, datblygu eu hyder a'u hunanbarch a grymuso'u llais wedi ennill Gwobr Diana'n ddiweddar.

Dechreuodd Prosiect Diamond fel sesiwn ragflas undydd i blant hŷn ond mae wedi tyfu o ganlyniad i'w brwdfrydedd a chefnogaeth gan Dîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Cyngor Abertawe a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru.  Mae'r bobl ifanc bellach yn mynd i gyfarfodydd a diwrnodau mas rheolaidd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn bwriadu ehangu ymhellach fel y gallant fentora plant iau fel nhw eu hunain i achub ar gyfleoedd nad oeddent o bosib yn meddwl y byddent o fewn cyrraedd iddynt.

Sefydlwyd Gwobr Diana ym 1999 gan Lywodraeth Prydain a oedd am barhau ag etifeddiaeth y Dywysoges Diana drwy sefydlu ffordd ffurfiol o gydnabod pobl ifanc a oedd yn gwneud llawer mwy na'r disgwyl yn eu cymunedau lleol.

Caiff y bobl ifanc sy'n rhan o Brosiect Diamond eu gwahodd yn awr i fynd i seremoni yng Nghaerdydd i dderbyn eu gwobr. Dyma'r ail dro maent wedi

cael cydnabyddiaeth am eu gwaith yn ddiweddar ar ôl ennill gwobr yng Ngwobrau Rho Bump Cyngor Abertawe fis diwethaf. Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

**7) Gwobrau Cenedlaethol Cerbydluoedd**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei fod yn falch o gyhoeddi bod yr awdurdod wedi cael ei ddewis i fod ar restrau byr dwy wobr genedlaethol ar gyfer cerbydluoedd. Y gyntaf yw gwobrau Green Fleet i'w cynnal yn Leeds ar 22 Tachwedd 2018, lle mae'r awdurdod ar restr fer y categori Cerbydlu Sector Cyhoeddus y Flwyddyn (canolig i fawr). Yr ail yw Gwobrau What Van i'w cynnal yn Llundain ar 13 Rhagfyr 2018, lle mae'r awdurdod ar restr fer y categori Cerbydlu Gwyrdd y Flwyddyn.

Mae'r enwebiadau hyn yn seiliedig ar gyflwyno 40 o faniau trydan, yr ymagwedd gyffredinol y mae'r awdurdod wedi'i mabwysiadu i leihau effaith amgylcheddol ein cerbydlu a'r bwriad i fabwysiadu Polisi Cerbydlu Gwyrdd.

**8) Ymgyrch y Rhuban Gwyn**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Ymgyrch y Rhuban Gwyn yn fudiad byd-eang sy'n gweithio i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched. Dywedodd y bydd yr awdurdod yn nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn drwy gynnal nifer o ddigwyddiadau yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe ar 26 Tachwedd 2018.

**9) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

**i) Eitem 17 yr Agenda, “Hysbysiad o Gynnig”**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y Cyng. C Holley wedi gofyn am dynnu'r Hysbysiad o Gynnig sydd wedi'i argraffu ar dudalennau 60 i 62 o Wŷs y Cyngor yn ôl.

**ii) Hysbysiad o Gynnig Brys**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, yn unol â pharagraff 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ei fod yn ystyried bod yr Hysbysiad o Gynnig a gylchredwyd yn fater brys.

**90. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**1) Gorymdaith y Nadolig**

Ymddiheurodd Arweinydd y Cyngor am Orymdaith y Nadolig a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2018, gan ddweud ei fod wedi siomi'r disgwyliadau'n fawr. Dywedodd fod camau wedi'u cymryd yn gyflym a bod y contract â'r cwmni allanol wedi'i derfynu.
Dywedodd mai'r awdurdod a drefnodd orymdaith lwyddiannus y Nadolig yn 2017 ac y bydd yn ymrwymedig i'w drefnu'n fewnol y flwyddyn nesaf gan

ddefnyddio tîm mewnol yr awdurdod a gyflwynodd y Sioe Awyr ac a ymunodd â'r BBC i gyflwyno'r Penwythnos Mwyaf gan BBC Music.

**2) Setliad Llywodraeth Cymru**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr awdurdod wedi derbyn rhywfaint o newyddion gwell am y gyllideb am newid. Er bod yr awdurdod wedi derbyn ffigurau pennawd Cymru gyfan hyd yn hyn, mae'n edrych fel y bydd £1.5m ychwanegol yn cyrraedd yn ystod 2018-2019.

Bydd yr arian hwn yn helpu'r awdurdod rywfaint â'r diffyg arian ar gyfer tâl athrawon (a fydd yn helpu i liniaru pwysau ar ysgolion) a phwysau gofal cymdeithasol y gaeaf.

**3) Newidiadau i Bortffolios y Cabinet**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi diwygio Portffolio'r Cabinet fel a ganlyn:

i) Dirprwy Arweinydd Portffolio Cabinet y cyngor sy'n gyfrifol am ddeisebau.

ii) Tynnwyd Cymunedau'n Gyntaf o Bortffolio Cabinet y Gwasanaethau Plant a'i ychwanegu at Bortffolio'r Cabinet ar gyfer Cymunedau Gwell.

## 91. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd un cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch yr eitemau canlynol ar yr agenda:

1) Hysbysiad o Gynnig Brys - Brexit

Ymatebodd yr Aelod Cabinet perthnasol yn unol â hyn.

Ni chafwyd cwestiynau a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig.

## 92. Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 93. Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor - 2019/20

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ei Gynghorau Cymuned/Tref ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer 2019-2020. Mae'n ofynnol i'r cyngor bennu Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2019-2020 erbyn 31 Rhagfyr 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2019-2020;

2) Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y'i diwygiwyd, mai dyma fydd cyfrifiad Dinas a Sir Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2019-2020:

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer yr ardal gyfan** | 90,069 |
| **Ar gyfer Cynghorau Cymuned/Tref:** | |
| Llandeilo Ferwallt | 1,943 |
| Clydach | 2,622 |
| Gorseinon | 3,263 |
| Tre-gŵyr | 1,951 |
| Pengelli | 416 |
| Llanilltud Gŵyr | 318 |
| Cilâ | 2,146 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 505 |
| Llangyfelach | 940 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,595 |
| Llanrhidian Isaf | 332 |
| Casllwchwr | 3,402 |
| Mawr | 744 |
| Y Mwmbwls | 9,651 |
| Penllergaer | 1,363 |
| Pennard | 1,468 |
| Penrhys | 412 |
| Pontarddulais | 2,305 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,042 |
| Porth Einon | 423 |
| Reynoldston | 300 |
| Rhosili | 183 |
| Y Crwys | 713 |
| Cilâ Uchaf | 556 |
| **Ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe** | 62,600 |

## 94. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) 2019-2020 - Ymgynghoriad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn hysbysu'r cyngor o Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2019-2018 ac amlinellodd y penderfyniadau a gynigiwyd gan yr IRPW. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ymateb drafft argymelledig Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'r ymgynghoriad, a roddwyd ar 6 Tachwedd 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r sylwadau a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad fel ymateb ffurfiol yr awdurdod i'r IRPW.

## 95. Adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer argymhellion Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 6 Tachwedd 2018 yn dilyn ei adolygiad o Adran A "Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig (Cyflogau, Lwfansau a Threuliau)" o'r Llawlyfr i Gynghorwyr.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r diwygiadau i Adran A "Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig (Cyflogau, Lwfansau a Threuliau)" o'r Llawlyfr i Gynghorwyr fel y'u hamlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.

## 96. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd yn ceisio diwygiad i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn ei symleiddio, ei wella a/neu ychwanegu ato mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

a) Rhan 3 "Cyfrifoldeb am Swyddogaethau" - Cylch Gorchwyl y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol a Phwyllgor y Gronfa Bensiwn;
b) Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" - Rheolau Gweithdrefnau'r cyngor - "Cyfarfod Arbennig o'r cyngor" a "Cyflwyniad Cyhoeddus a Hawl i Holi";
c) Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" - Rheolau Gweithdrefnau'r Cabinet - "Gweithdrefn Galw i Mewn";
ch) Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" - Rheolau Gweithdrefnau Contract - Goddefebau, Gweithdrefnau Tendrau Unigol a Hepgoriadau;
d) Rhan 6 "Cynllun Lwfansau Cynghorwyr"

**Penderfynwyd:**

1) Diwygio Paragraff 7 a) Cylch Gorchwyl y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol fel y'i hamlinellir yn Rhan 3 "Cyfrifoldeb am Swyddogaethau" Cyfansoddiad y Cyngor.

   *"7 a) Byddai'r Bwrdd fel arfer yn cwrdd bob chwarter ond gall gwrdd yn ôl y galw".*

2) Ychwanegu'r paragraff canlynol at Gylch Gorchwyl Pwyllgor y Gronfa Bensiwn fel y'i hamlinellir yn Rhan 3 "Cyfrifoldeb ar gyfer Swyddogaethau" Cyfansoddiad y Cyngor:

   *"12. Cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Pensiwn yr Awdurdod".*

3) Diwygio Rheol 10 Gweithdrefn y Cyngor sy'n ymwneud â "Chyfarfod Arbennig o'r Cyngor" fel y'i hamlinellir yn Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" Cyfansoddiad y cyngor i'w chynnwys yn yr eitemau busnes canlynol:

   *a) Cyhoeddiadau/Negeseuon gan yr Aelod Llywyddol;*
   *b) Cyhoeddiadau/Negeseuon gan Arweinydd y Cyngor;*
   *c) Cwestiynau gan y Cyhoedd.*

4) Diwygio paragraff 26.5 Rheol 26 Gweithdrefn y Cyngor sy'n ymwneud â "Chyflwyniadau Cyhoeddus a Hawl i Holi" fel y'i hamlinellir yn Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" Cyfansoddiad y Cyngor i ddarllen:

   "*26.5 Yn ôl disgresiwn yr Aelod Llywyddol, gall unrhyw Sefydliad Trydydd Sector neu sefydliad arall roi cyflwyniad i'r cyngor ar fater y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano. Dyrennir cyflwyniadau ar sail y cyntaf i'r felin."*

5) Diwygio teitl Rheol 26 Gweithdrefn y Cyngor i ddarllen fel a ganlyn:

   *"26.* Cyflwyniadau a Chwestiynau gan y Cyhoedd

6) Diwygio ac ailrifo Rheol 14 Gweithdrefn y Cyngor sy'n ymwneud â "Threfn Busnes" fel y'i hamlinellir yn Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" Cyfansoddiad y cyngor i gynnwys y canlynol:

   "*Cyhoeddiadau/Negeseuon gan Arweinydd y Cyngor".*

7) Diwygio Paragraff 18.3.1 Rheol 18.3 Gweithdrefnau'r Cabinet sy'n ymwneud â "Dilysrwydd Galw i Mewn" fel y'i hamlinellir yn Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" Cyfansoddiad y Cyngor i ddarllen:

   *"18.3.1 Ni chaiff ei wneud erbyn 23.59 ar 3ydd diwrnod gwaith clir cyhoeddi'r penderfyniad;"*

8) Diwygio Rheol 20 Gweithdrefnau Contractau sy'n ymwneud â "Goddefebau, Gweithdrefnau Tendro Unigol a Hepgoriadau" fel y'u hamlinellir yn Rhan 4 "Rheolau Gweithdrefnau" Cyfansoddiad y Cyngor fel bod y ddyletswydd i ystyried cymeradwyo neu hepgor yr holl oddefebau, gweithdrefnau tendrau unigol a hepgoriadau yn cael ei throsglwyddo i Bennaeth y Gwasanaethau Masnachol, ac y cedwir cofrestr ohonynt.

9) Dileu'r Cynllun Lwfansau Cynghorwyr fel y'i hamlinellir yn Rhan 6 "Cynllun Lwfansau Cynghorwyr" yn ei gyfanrwydd a rhoi'r canlynol yn ei le:

   *"Gellir gweld gwybodaeth sy'n ymwneud â Chydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig yn Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau*."

## 97. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

## 98. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiwn/cwestiynau atodol hwnnw/hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno/arnynt isod:

**Cwestiwn 6** Gofynnodd y Cyng. C L Philpott:
*"A all Aelod y Cabinet ddarparu nodyn briffio i'r holl gynghorwyr sy'n amlinellu'r rheolau sydd ar waith o ran cynllun chwistrellu chwyn yr awdurdod?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Reoli'r Amgylchedd ac Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

## 99. Hysbysiad o gynnig - Cynghorydd C A Holley, M H Jones, P M Black, A M Day and J W Jones.

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

## 100. Eitem Frys

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei fod, yn unol â pharagraff 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystyried y dylai'r "Hysbysiad o Gynnig" gan: y Cynghorwyr R C Stewart, C A Holley, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, A M Day, W Evans, R Francis-Davies, D H Hopkins, J W Jones, M H Jones, E J King, A S Lewis, C E Lloyd, J A Raynor, M Sherwood ac M Thomas mewn perthynas â Brexit gael ei ystyried yn y cyfarfod fel mater o frys.

## 101. Urgent - Notice of Motion from Councillors R C Stewart, C A Holley, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, A M Day, W Evans, R Francis-Davies, D H Hopkins, J W Jones, M H Jones, E J King, A S Lewis, C E Lloyd, J A Raynor, M Sherwood and M Thomas

**Rheswm dros y Mater Brys:**Adroddir yn helaeth yn y wasg fod y Prif Weinidog yn gobeithio cyflawni cytundeb Brexit ar 25 Tachwedd 2018, pan fydd yn mynd i uwchgynhadledd frys o'r EU ym Mrwsel at y diben penodol hwnnw. Deellir yn gyffredinol y gellid cynnal y bleidlais mor gynnar â 7 Rhagfyr 2018. Felly, mae angen clir i ymdrin â'r Hysbysiad o Gynnig hwn ar frys.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd R C Stewart a'i eilio gan y Cynghorydd C A Holley.

"*Daeth yn amlwg dros y pythefnos diwethaf fod y cytundeb i adael yr UE ym mis Mawrth 2019 yn gytundeb nad yw'n bodloni'r rhai sydd am aros yn y UE na'r Brexitwyr, ac nid oes fawr o obaith y bydd y Senedd yn cytuno arno.*

*Er mwyn mynegi ein barn yn glir i Lywodraeth y DU ynghylch sut dylent ddatrys y sefyllfa hon, mae'r cyngor yn galw ar y Llywodraeth i alw Etholiad Cyffredinol a/neu roi cyfle i'r bobl, gan gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed, fwrw pleidlais ynghylch y cytundeb drwy Bleidlais y Bobl. Dylai'r bleidlais gynnwys opsiwn i aros yn yr UE neu adael heb gytundeb.*

*O gofio bod refferendwm Brexit wedi'i lethu gan symiau enfawr o wybodaeth anghywir, mae'r cyngor hwn yn galw ar holl asiantaethau'r Llywodraeth i sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.*

*Rydym wedi penderfynu galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y Prif Weinidog gan nodi'r farn a fynegwyd yn y cynnig hwn."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellwyd uchod fel y'i diwygiwyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.12 pm

**Cadeirydd**